Pennsylvania, penderfynodd groesi'r Iwerydd. Ymsefydlodd yn Scranton, dinas ag ynddi draddodiad o eisteddfodau, ac aros yno tan 1894. Priododd ag un o Gymry'r ddinas a ddaethai yno o Dredegar pan oedd yn dri mis oed. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd cafodd hyfforddiant cerddorol pellach ac ennill gradd Mus. Bac. Prifysgol Toronto yn 1890; yn ddiweddarach cafodd ddoethuriaeth gan Brifysgol Talaith Efrog Newydd. O Scranton symudodd i Milwaukee yn nhalaith Wisconsin, ac oddi yno, tuag 1908, i Chicago, lle y bu tan ei farw, 25 Chwefror 1934.

Cafodd yrfa lawn fel arweinydd. Mor gynnar ag 1898 cofnododd *Y Cerddor* ei fod yn arwain tri chôr yn Milwaukee a dau arall o fewn y dalaith. Yn Chicago bu'n gyfarwyddwr cerdd y Central Church ac yn gyfaill agos i'r gweinidog, F. W. Gunsaulus, a sgrifennodd y geiriau i nifer o'r carolau Nadolig. Bu'n athro llais yn y Sherwood Music School ac yn feirniad ar gystadlaethau ac eisteddfodau mewn sawl talaith yng ngogledd America. Yn 1926 sefydlodd Gôr Meibion Cymreig Chicago, yr oedd ei 53 aelod yn cynnwys Jonesiaid, Williamsiaid a Hughesiaid ymhlith llawer o enwau cyfarwydd eraill.

Ymwelai â Chymru'n gyson ar hyd ei yrfa — barnai golygydd *Y Brython*, J. H. Jones, ei fod yn adnabod pob ton rhwng Efrog Newydd a Lerpwl. Beirniadodd sawl gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mewn eisteddfodau llai, a disgwylid ef i feirniadu yn Eisteddfod Genedlaethol Castell Nedd yn 1934, y flwyddyn y bu farw. Ar gyfer cymanfa ganu yn Rhymni yn y flwyddyn honno y cyfansoddodd ei dôn gynulleidfaol 'Price', a drodd yn dôn goffa iddo ef, gan iddo farw cyn y gymanfa.

Y dôn honno, ac eraill megis 'Cwmgïedd', 'Hiraeth', 'Milwaukee' a 'Wilkesbarre', sydd wedi cadw enw Daniel Protheroe yn fyw: yn awyrgylch canu cynulleidfaol y'i maged, ac arhosodd yn y traddodiad hwnnw trwy gydol ei oes. Golygodd lyfrau tonau at ddefnydd cynulleidfaoedd Cymraeg Gogledd America. Y mae rhai o'i ddarnau i gorau meibion, megis 'Nidaros', 'Milwyr y Groes' a'i drefniant o 'Bryn Calfaria', wedi dal yn boblogaidd, ynghyd â'i ran-gan i leisiau merched, 'Y mae afon'. Ond cyfran fach yw'r rhain o'i waith cyhoeddedig. Roedd ef ei hun yn amcanu fod tua mil o deitlau wedi eu cofrestru ganddo yn Llyfrgell y Gyngres o dan amodau Deddfau Hawlfraint yr Unol Daleithiau, ac ychydig o'r rheini a ddaeth i Gymru o gwbl.

Teyrnged uchel i'w ddawn yw iddo gyfansoddi caneuon i blant, ar eiriau gan Nantlais, sydd bron wedi troi yn alawon gwerin yng nghof y genedl: 'O lili wen fach' a 'Mynd drot, drot ar y gaseg wen' yn arbennig. Er iddo fyw am yn agos i hanner canrif yn America, cadwodd gyswllt agos â Chymru ac â'i bywyd cerddorol, ac er iddo droi'n ddinesydd Americanaidd yn 1891, fe'i cyfrifai ei hun yn Gymro hyd y diwedd. Wrth dalu teyrnged iddo ar ôl ei farw yn 1934 dyfynnodd *Y Cerddor* o lythyr yr oedd wedi ei sgrifennu rai wythnosau ynghynt at T. Hopkin Evans, i'w longyfarch ar ysgrif o'i eiddo yn y cylchgrawn. Y mae byrdwn ei neges yn dal yn berthnasol:

> **I mi, sydd tu allan i'r rhestri, ond yn gwylio symudiadau yna, ac yn gystal Cymro â llawer sydd yng Nghymru, er wedi treulio 47 o'm blynyddau yma, mae gweled gwaseiddwch aml i gerddor, a ymsytha yn fynych, ond pan ddaw Sais ar ei draws mae yn kowtowio'n wasaidd o'i flaen ac yn derbyn pob datganiad o'i eiddo fel efengyl, yn wrthun . . ., a phe buaswn yn agos i chwi mi rown Amen Methodistaidd i'r hyn ddaru i chwi ysgrifennu. Mae'n arferiad, 'rwy i wedi sylwi, gan amryw o'r oraclau Saesonaidd, i fynd o amgylch i ffeindio beiau — rhyw 'bilo crach,' fel y dywedai Dafydd Luk yn yr Ystrad. Ni fydd dim wrth eu bodd ond hynny ddaw dros Glawdd Offa. Yr wyf wedi clywed ambell i gyfansoddiad gan rai o'r rhain na fyddai i mi byth eu hystyried . . . Paham, dwedwch chwi, fod yn rhaid i ni ddifetha y pethau sydd ddynodol yn nheithi'r genedl?**


**LLYFRAU YSTWYTH**

**7 Princess Street, Aberystwyth**

**Dyfed, SY23 1DX**

**Ffôn (0970) 617511**

Yn eisiau bob amser llyfrau ail-law
Cymraeg a Chymreig

Ar agor Llun – Sadwrn 10 a.m. – 5.15 p.m.
Ar gau ar ddydd Mercher
Rheolwr: Mrs H. M. Hinde


# HUW CEIRIOG A'I WASG

## gan RICHARD E. HUWS

PAN ddosbarthodd Huw Ceiriog gopïau o'r gyfrol ddiweddaraf i ymddangos o'i wasg i'w gyfeillion rai wythnosau'n ôl yr oedd yn amlwg fod y wasg argraffu breifat sydd ganddo yn ei seler wedi bod yn weithredol yn ystod misoedd y gwanwyn. *Ych yng ngwedd* yw teitl y gyfrol fechan 12 tudalen y mae Huw newydd orffen ei hargraffu.

Detholiad o gerddi o'r llawysgrifau cynnar a ddiweddarwyd gan Marged Haycock o Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yw'r cynnwys. Y mae hefyd yn cynnwys pump o engrafiadau hardd, du a gwyn, o waith Gareth Lloyd Hughes, arlunydd o Gapel Seion, ger Aberystwyth. Yn nodweddiadol o waith Huw Ceiriog, a nifer o weisg preifat eraill, mae ei ddefnydd o liwiau — coch a du yn yr achos hwn — yn drawiadol ac yn effeithiol dros ben.

Y mae Huw Ceiriog wedi bod wrthi am yn agos i chwarter canrif yn ymhel ag argraffu, a hynny yn gyfan gwbl er mwyn pleser. Mae ei waith yn dangos awydd i arbrofi â lliwiau gwahanol ac â phapur a dulliau rhwymo amrywiol. Yn ddieithriad llwyddodd i greu gwaith gorffenedig deniadol a drysorir gan y rhai sydd yn ddigon ffodus i'w derbyn yn rhoddion ganddo.

Yn 1969 yn y 'Llety Gwyn' yn Llanbadarn Fawr y dechreuodd Huw ddangos diddordeb yn y grefft o argraffu, a hynny wedi iddo dreulio cyfnod yn fyfyriwr yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru a oedd gerllaw. Erbyn hynny 'roedd yn gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yn sgil hynny wedi dechrau ennill cyflog. Prynodd beiriant argraffu bychan a chymharol syml 'Adana' ac ar y peiriant hwn y cynhyrchodd nifer o lyfrynnau sy'n dwyn yr argraffeb 'Pwllhobi: Gwasg Llety Gwyn' ynghyd â logo bach syml o dŷ gwyn ar gefndir du, coch, neu wyrdd. Yn ddigon naturiol i ŵr ifanc sengl yn byw yn Llanbadarn Fawr troi at waith Dafydd ap Gwilym, at y cywydd adnabyddus 'Merched Llanbadarn' yn benodol, wnaeth Huw ar gyfer ei ddewis cyntaf o destun i'w argraffu. Argraffwyd 100 copi yn unig o'r gwaith hwn.

Fe ymddangosodd nifer o gyhoeddiadau eraill o Wasg Llety Gwyn yn ystod 1970-71 ac ym mhob un ohonynt y mae Huw yn dechrau arbrofi efo defnyddio lliw a lluniau. Mewn cyfres o gerddi modern gan Gwynne Williams (ei gyn-athro Cymraeg yn Ysgol Llangollen) yn dwyn y teitl *Y Gwanwyn Gwydr*, ceir toriadau-leino hyfryd o waith Tegwyn Jones, Bow Street, yn darlunio glas y dorlan, gwiwer ac alarch, mewn gwahanol liwiau. Efallai mai un o gynhyrchion mwyaf diddorol Gwasg Llety Gwyn yw *Marwnad Serch* (anhysbys) a ddiweddarwyd gan neb llai na Dafydd Elis Thomas. Tybed a oes copi yn Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi?

Erbyn diwedd 1971 roedd Huw wedi prynu tŷ o'r enw 'Rheidol House' ym mhentref Aber-ffrwd yng Nghwm Rheidol. Ac yntau'n ŵr diwylliedig o Ddyffryn Ceiriog yn wreiddiol bu'n rhaid iddo newid enw'r tŷ ar unwaith, a pha well enw na 'Yr Arad Goch' fel teyrnged i fardd arall o'i fro enedigol — John Ceiriog Hughes? Yn fuan iawn gosododd arad y tu allan i'r tŷ, a honno'n goch gan rwd, ac o ganlyniad i hyn trodd Gwasg Llety Gwyn yn Wasg yr Arad Goch. Yn y cartref newydd hwn y cwblhawyd argraffu'r gyfrol ddeniadol *Manwellt y Mynydd*, sef cyfres o gerddi gan fardd cyfoes arall o Ddyffryn Ceiriog, Henry Hughes.

Yn ystod y flwyddyn ganlynol cafodd Huw ar ddeall fod cwmni argraffu John Ellis o Lanidloes wedi cau i lawr a bod y peiriannau ar werth. Yr oedd hwn yn gyfle euraidd i gael gafael ar beiriannau 'Arab' a 'Jardine' yn dyddio o droad y ganrif. Ni chollodd Huw y cyfle ac yn fuan iawn, gyda chymorth rhai ffrindiau ac yn arbennig felly rhai o staff Adran Argraffu'r Llyfrgell Genedlaethol, llwyddwyd i ddatgymalu'r peiriannau, eu cludo i Aber-ffrwd, ac ar ôl rhai anawsterau eu cael i weithio unwaith yn rhagor yn eu cynefin newydd. Dros nos trowyd parlwr ffrynt 'Yr Arad Goch' yn argraffdy (roedd hyn cyn i Huw rwydo Diana) ac fe esgorodd hyn yn y man ar gyfnod cynhyrchiol iawn yn hanes argraffu yng Nghwm Rheidol. Ymhlith cynhyrchion y cyfnod hwn gellir rhestru eitemau fel *Picasso*, sef cerdd o waith Huw ei hun wedi ei hargraffu mewn pum lliw gwahanol, *Amser i bob peth* (o Lyfr y Pregethwr) lle defnyddiwyd testun 1588 Beibl William Morgan, a *Deffro*, sef cerdd anhysbys a argraffwyd ar bapur a wnaethpwyd â llaw ac a gyfyngwyd i ddwsin o gopïau'n unig.

Wedi priodi a symud i gartref newydd o'r enw Y Wern ym Mhen-y-garn, Bow Street, ym Mehefin 1977 cododd yr angen i newid enw'r wasg unwaith eto. Daeth Gwasg y Wern i fodolaeth yn seler y tŷ newydd, nid fel gwasg danddaearol ychwaith! Ym mis Mai 1978 ymddangosodd *Kintevin Keinhaw Amsser* o Lyfr Du